

Crynodeb o Fil
Bil Llywodraeth Leol
(Democratiaeth) (Cymru)

Ionawr 2013

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**

Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 12/2964

Crynodeb o Fil
Bil Llywodraeth Leol
(Democratiaeth) (Cymru)

Ionawr 2013

Rhys Iorwerth ac Alys Thomas

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cefndir	2
2.1.	Sail gyfreithiol bresennol y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru	2
2.2.	Cyd-destun polisi	2
2.2.1	Adolygiad Mathias.....	2
2.2.2.	Y Papur Gwyn ac ymgynghori	4
3.	Y Bil: Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)	5
3.1.	Rhan 1	5
3.1.1.	Adran 1 - Trosolwg	5
3.2.	Rhan 2 - Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	5
3.3.	Rhan 3 - Trefniadau ar gyfer llywodraeth leol	7
4.	Costau	17
5.	Ymateb i'r Bil	19

Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) ¹

1. Cyflwyniad

Dyddiad y'i cyflwynwyd: 26 Tachwedd 2012

Yr Aelod sy'n gyfrifol: Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1: Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi **cais am dystiolaeth** a fydd yn dod i ben ar **15 Chwefror** 2012 a bydd yn **ystyried y Bil** ar y dyddiadau canlynol: 9 Ionawr 2013, 17 Ionawr 2013, 23 Ionawr 2013, 31 Ionawr 2013, 6 Chwefror 2013 a 21 Chwefror 2013

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar Gyfnod 1: 8 Mawrth 2013.

Bwriad darpariaethau'r *Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)* ("y Bil") yw diwygio trefniadaeth a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau a fydd yn diwygio *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* mewn perthynas â chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a strwythur pwyllgorau archwilio awdurdodau lleol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ynghylch mynediad y cyhoedd at wybodaeth am gynghorau tref a chymuned.

Mae'r Bil hefyd yn diwygio Rhan III o *Ddeddf Llywodraeth Leol 2000* er mwyn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol greu cyd-bwyllgorau safonau ac mae'n cynnwys darpariaeth yn ymwneud â rôl Cadeirydd neu Faer prif gynghorau.

¹ [Bil Llywodraeth Leol \(Democratiaeth\) \(Cymru\)](#) [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

2. Cefndir

2.1. *Sail gyfreithiol bresennol y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru*

Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (“y Comisiwn”) ym mis Mehefin 1974 o dan delerau Adran 53 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 1972* (“Deddf 1972”). Caiff swyddogaethau statudol y Comisiwn eu pennu yn Adrannau 54 i 78 o *Ddeddf 1972* fel y’i diwygiwyd gan *Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994* (“Deddf 1994”). Mae Atodlen 8 i *Ddeddf 1972* yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad a thrafodion y Comisiwn. Cymru yw’r unig ran o’r Deyrnas Unedig sydd yn dal i ddibynnu ar *Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*, fel y’i diwygiwyd gan *Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994*, fel y sail gyfreithiol ar gyfer gwaith ei Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol.

O 1 Ebrill 1995 daeth y Comisiwn yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol ymgynghorol a ariannwyd gan gymorth grant gan y cyn Swyddfa Gymreig ac ar ôl 1 Gorffennaf 1999, daeth yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC). Pan ddaeth *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i rym ar 25 Mai 2007 daeth y Comisiwn yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC).

Diben y Comisiwn yw:

Cynnal arolygon o ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol yng Nghymru, gyda’r bwriad o ystyried a ddylid cyflwyno cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu newidiadau sy’n ymddangos i’r Comisiwn yn rhai sy’n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.²

Ers i Ran 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (“Deddf 2006”) ddod i rym yn dilyn y refferendwm ym mis Mawrth 2011, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu mewn perthynas â’r Comisiwn oherwydd ei fod yn dod o dan faes 12: Llywodraeth Leol yn Atodlen 7 i *Ddeddf 2006*.

2.2. *Cyd-destun polisi*

2.2.1. *Adolygiad Mathias*

Ym mis Rhagfyr 2010 cyhoeddodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, na fyddai’n gweithredu unrhyw un o’r **adolygiadau etholiadol** a argymhellwyd gan y Comisiwn cyn etholiadau lleol 2012 ond y byddai’n sefydlu adolygiad annibynnol o’i raglen waith. Y rheswm dros hynny oedd bod yr adolygiadau etholiadol yn rhedeg yn hwyr a bod pryder ynghylch yr etholaeth a safon y rhai a gwblhawyd. Dywedodd datganiad y Gweinidog:

² Adroddiad Blynyddol Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru 2009-10, t1.

Yn unol â'r materion hyn, ac yn arbennig yn sgil yr oedi a fu wrth gynhyrchu adroddiadau ar gyfer amryw o siroedd, rwyf wedi penderfynu na fyddaf yn gwneud unrhyw orchmynion yng nghyd-destun diwygio ffiniau unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru a fydd yn dod i rym erbyn etholiadau 2012. Nid wyf am greu sefyllfa lle bydd rhai awdurdodau lleol yn cynnal etholiadau yn 2012 o dan drefniadau newydd, a rhai eraill o dan drefniadau sydd eisoes yn bodoli. Byddai sefyllfa o'r fath yn anghybwys. Rwy'n gwneud y cyhoeddiad hwn yn awr i roi sicrwydd i lywodraeth leol, a phawb arall sydd ynghlwm wrth y broses etholiadol.

Yn amlwg, mae'r ffaith nad yw'r Comisiwn Ffiniau wedi llwyddo i gyflawni'r rhaglen hon o adolygiadau mewn modd cyson, ac o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, yn achos pryder imi. O ganlyniad, rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i sefydlu adolygiad annibynnol i ymchwilio i'r rhesymau y tu ôl i'r methiannau hyn, ac i nodi camau y gellid eu cymryd i sicrhau bod modd cyflenwi'r rhaglen yn effeithlon, ac i safon uchel, mewn da bryd erbyn etholiadau 2016.³

Penododd y Gweinidog Glyn Mathias i arwain yr Adolygiad. Gwahoddwyd Max Caller, Cadeirydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Loegr, a Peter Mackay, Cadeirydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i'r Alban, i ymuno â'r Panel fel cynghorwyr, i gyfrannu eu harbenigedd at waith yr adolygiad.

Cylch gwaith yr Adolygiad⁴ oedd:

- nodi'r rhesymau am yr oedi yn y rhaglen o adolygiadau ac asesu'r camau a gymerwyd gan y Comisiwn i aildrefnu'r rhaglen ar sawl achlysur;
- archwilio'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan y Comisiwn yn ei adolygiadau ac argymhell sut mae cryfhau a gwella'r fethodoleg hon yn y dyfodol;
- adolygu polisiau corfforaethol ac amcanion gweithredol y Comisiwn fel sy'n berthnasol ar gyfer adolygiadau etholiadol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag anghenion deddfwriaethol, Cyfarwyddiadau Gweinidogol a'r canllawiau a ddarparwyd i'r Comisiwn;
- asesu dulliau'r Comisiwn o sicrhau ansawdd gwaith yn sgîl gwallau gweinyddol a wnaethpwyd mewn perthynas ag ymddygiad, ac adrodd ar adolygiadau etholiadol ac argymhell sut y gellir gwella'r adolygiadau hyn;
- asesu capasiti a gallu'r Comisiwn a'i staff i gwblhau'r cylch adolygiadau mewn modd boddhaol o fewn cyfnod rhesymol gan ystyried y bwriad i ehangu rhaglen waith yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer rhaglenni adolygu eraill yn y dyfodol.⁵

Ar 25 Ionawr 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ymateb llawn Llywodraeth Cymru i argymhellion Adolygiad Mathias.⁶ Nododd y

³ [Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru – Adolygu Trefniadau Etholiadol, 8 Rhagfyr 2010](#) [fel ar 4 Ionawr 2013]

⁴ [Adolygiad Annibynnol ar y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, 2011](#) [fel ar 4 Ionawr 2013] (Saesneg yn unig)

⁵ Ibid.

⁶ Ibid.

Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â nifer o'r materion a nodwyd yn yr adolygiad yn y *Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)* yr oedd yn bwriadu ei gyflwyno fel rhan o'i raglen ddeddfwriaethol.

2.2.2. Y Papur Gwyn ac ymgynghori

Ar 17 Mai 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyn *Hybu Democratiaeth Leol* a lansiodd ymgynghoriad a fyddai'n rhoi gwybod am gynnwys y Bil hwn. Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ynghylch:

- Diwygio gweithrediaeth a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau yn unol ag argymhellion Adolygiad Mathias;
- Gwella mynediad at wybodaeth am gynghorau tref a chymuned;
- Adolygu'r broses o wneud honiadau y gallai aelodau o lywodraeth leol fod wedi torri eu cod ymddygiad;
- Gwella effeithiolrwydd rheolaeth etholiadol yng Nghymru, o ran trefnu, ariannu a chofrestru pleidleiswyr;
- Sicrhau bod swyddogaeth graffu llywodraeth leol, a gaiff ei chryfhau gan *Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011*, yn effeithiol er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus mewn cyfnod o gydweithredu;
- Sicrhau bod cynghorwyr yn cael gwell lefelau o hyfforddiant a datblygiad.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn nodi y daeth 91 o ymatebion i law, a bod yr ymateb gan y rhan fwyaf yn gadarnhaol. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn honni y '**cynhwyswyd y rhan fwyaf o'r cynigion**' yn y Papur Gwyn '**fel darpariaethau yn y Bil**'. Mae'n nodi mai'r '**unig eithriadau**' yw'r rhai sy'n cynnwys penodi aelodau ychwanegol i'r Comisiwn Ffiniau ac amserlenni ar gyfer cynghorau cymuned i gydymffurfio â dyletswyddau newydd. Fodd bynnag, ymddengys fod **cynigion eraill yn y Papur Gwyn nad ydynt wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil**. Mae'r rhain yn cynnwys y cynnig i ddileu'r gofyniad clir i roi gwybod am achosion posibl o dorri'r cod i'r Ombwdsmon yn y cod ymddygiad enghreifftiol i gynghorwyr; cynigion ynghylch cynnal etholiadau a swyddogion canlyniadau; a chynigion i ailgyflwyno'r Gronfa Datblygu Craffu. Mae'n bosibl bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r cynigion hyn drwy ffyrdd eraill ond nid oes sôn am hyn yn y Memorandwm Esboniadol.

3. Y Bil: Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

Mae'r Bil yn gwneud newidiadau sylweddol i weithrediaeth a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru er mwyn gweithredu argymhellion Adolygiad Mathias.

3.1. *Rhan 1*

3.1.1. *Adran 1 – Trosolwg*

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau'r Bil a'r hyn y mae'r Bil yn ceisio ei gyflawni. Mae 70 o adrannau, 6 Rhan a 3 Atodlen i'r Bil.

3.2. *Rhan 2 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru*

Adran 2 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Mae'r adran hon yn newid enw'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn").

Adran 3 – Statws

Mae'r adran hon yn egluro nad corff i'r Goron yw'r Comisiwn.

Adrannau 4 a 5 – Aelodaeth; Deiliadaeth

Mae'r adrannau hyn yn darparu mai aelodau'r Comisiwn fydd y cadeirydd, dirprwy gadeirydd a hyd at dri aelod arall, i'w penodi ar delerau ac amodau a benderfynir gan Weinidogion Cymru. Pennir deiliadaeth aelod o'r Comisiwn gan delerau ac amodau ei benodiad.

Adrannau 6 a 7 – Trafodion; Y sêl a dilysrwydd dogfennau

Mae'r adrannau hyn yn pennu cworwm o dri ar gyfer cyfarfodydd o'r Comisiwn ac y caiff y Comisiwn reoleiddio ei weithdrefn ei hun.

Caniateir hefyd i'r Comisiwn gael sêl i'w defnyddio ar ddogfennau a dilysir y defnydd o'r sêl drwy lofnod aelod o'r Comisiwn neu lofnod person arall sydd wedi ei awdurdodi gan y Comisiwn at y diben hwn.

Adran 8 – Prif weithredwr

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi prif weithredwr y Comisiwn (yn hytrach nag Ysgrifennydd a oedd yn ofynnol ar gyfer y Comisiwn blaenorol) a phenderfynu ar ei delerau ac amodau, ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn. Bydd gan y Prif Weithredwr yr un swyddogaethau â'r Ysgrifennydd blaenorol. Cyn i Weinidogion Cymru benodi prif weithredwr, mae'n ofynnol iddynt ymgynghori â'r Comisiwn.

Adran 9 – Staff eraill

Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i gyflogi staff a phenderfynu ar eu tâl a'u telerau ac amodau. Cyn penodi staff a phenderfynu ar y tâl, y pensiynau, y lwfansau a'r treuliau sy'n daladwy, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

Adran 10 – Arbenigwyr

Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i benodi cynghorwyr arbenigol i'w gynorthwyo i arfer ei swyddogaethau. Cyn penodi arbenigwr a phenderfynu ar y tâl, y lwfansau neu'r treuliau sy'n daladwy, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

Adran 11 – Comisiynwyr cynorthwyol

Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i benodi Comisiynwyr Cynorthwyol i'w gynorthwyo i gynnal adolygiadau o ardaloedd llywodraeth leol neu drefniadau etholiadol neu i gadeirio ymchwiliadau lleol. Cyn i'r Comisiwn benodi comisiynydd cynorthwyol, mae'n ofynnol iddo ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

Yn yr un modd, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i gomisiynydd cynorthwyol.

Adrannau 12 i 14 – Pwerau; Dirprwyo; Cyfarwyddiadau

Mae gan y Comisiwn y pŵer i wneud unrhyw beth a fydd yn hwyluso'r gwaith o arfer swyddogaethau'r Comisiwn neu sy'n ffafriol i arfer ei swyddogaethau neu'n gysylltiedig â hynny. Fodd bynnag, mae **adran 12** yn egluro na chaniateir i'r Comisiwn fenthyca arian, caffael tir neu eiddo (ac eithrio â chydysniad Gweinidogol) na ffurfio a hyrwyddo cwmnïau.

Mae **adran 13** yn darparu y caiff y Comisiwn ddirprwyo i aelodau unigol neu gomisiynwyr cynorthwyol ei swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau o ardaloedd neu drefniadau llywodraeth leol neu gynnal ymchwiliadau lleol, heb negyddu cyfrifoldeb cyffredinol y Comisiwn dros gyflawni'r swyddogaethau dirprwyedig hyn.

Mae **adran 14** yn rhoi pŵer cyfarwyddo cyffredinol o ran y Comisiwn i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru a chaiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd drwy ddyroddi cyfarwyddyd dilynol.

Adran 15 – Cyllido

Mae'r adran hon yn pennu y darperir cyllid ar gyfer y Comisiwn drwy grantiau Gweinidogion Cymru. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar swm y grant yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau a bennir ganddynt.

Adran 16 – Swyddog cyfrifyddu

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi swyddog cyfrifyddu o blith staff y Comisiwn a chanddo gyfrifoldebau a bennir drwy gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â threfniadau ariannol y Comisiwn.

Adrannau 17 i 20 – Pwyllgor Archwilio; Pwyllgor archwilio: aelodaeth; Cyfrifon ac archwilio allanol; Adroddiadau blynyddol

Rhaid i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor archwilio i adolygu materion ariannol a llywodraethu corfforaethol y Comisiwn. Rhaid iddo gyflwyno adroddiadau i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru. Rhaid i'r Comisiwn Archwilio gynnwys o leiaf ddau Gomisiynydd ac o leiaf un aelod lleyg.

Mae **adran 19** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn lunio datganiad blynyddol o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid i gynnwys y datganiad hwnnw gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r datganiad gael ei anfon at Weinidogion Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ac unwaith y bydd wedi ei ardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol, rhaid ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad').

Cyn diwedd mis Tachwedd bob blwyddyn, rhaid i'r Comisiwn hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol a rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad hwnnw gerbron y Cynulliad hefyd.

3.3. Rhan 3 – Trefniadau ar gyfer llywodraeth leol

Mae'r rhan hon yn disgrifio'r mathau o adolygiad o ardaloedd a threfniadau llywodraeth leol y caniateir eu cynnal ac yn manylu ar y weithdrefn i'w dilyn wrth gynnal adolygiad. Mae hefyd yn ymdrin â'r modd o weithredu unrhyw argymhellion a wneir o ganlyniad i'r adolygiad.

Adran 21 – Dyletswydd y Comisiwn i fonitro trefniadau ar gyfer llywodraeth leol

Mae'r adran hon yn amlinellu swyddogaeth gyffredinol y Comisiwn i adolygu trefniadau llywodraeth leol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau bod llywodraeth leol yn effeithiol ac yn gyfleus.

Adran 22 – Dyletswydd prif gyngorau mewn perthynas ag ardal

Mae'r adran hon yn amlinellu ei bod yn ofynnol i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (a ddiffinnir yn y Bil yn 'brif gyngorau') adolygu'r cymunedau yn ei ardal a threfniadau etholiadol y cymunedau hynny a rhaid iddo lunio adroddiad ar y mater hwn o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 15 mlynedd.

Wrth gyflawni'r ddyletswydd honno, ac wrth gynnal unrhyw adolygiadau o dan y Rhan honno, rhaid i bob prif gyngor geisio sicrhau bod llywodraeth leol yn effeithiol ac yn gyfleus.

Adran 23 – Adolygu ffiniau prif ardaloedd

Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn, o'i wirfodd neu ar gais gan brif gyngor, i gynnal adolygiad o sir neu fwrdeistref sirol (a ddiffinnir yn y Bil yn "brif ardaloedd"). Yn dilyn adolygiad, rhaid i'r Comisiwn wneud cynigion i Weinidogion Cymru. Yn ei gynigion, caiff y Comisiwn gynnig unrhyw newid i brif ardal sy'n briodol a newidiadau canlyniadol i ffiniau cymunedol neu drefniadau etholiadol o fewn cymunedau. Diffinnir y newidiadau posibl yn is-adran (4).

Yn unol â'r ddyletswydd o osodir o dan adran 21, dylai unrhyw argymhellion y mae'r Comisiwn yn eu gwneud mewn perthynas ag adolygiad o'r fath geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Adran 24 – Adolygu prif ardaloedd yn dilyn gorchymyn tref newydd

Mae'r adran hon yn amlinellu'r broses i'w dilyn os bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn Tref Newydd yn unol â *Deddf Trefi Newydd 1981*. O dan yr amgylchiad hwnnw, rhaid i'r Comisiwn, ar ôl cael hysbysiad oddi wrth Weinidogion Cymru am y Gorchymyn Tref Newydd, gynnal adolygiad yn unol â darpariaethau adran 23 o'r Bil o unrhyw brif ardaloedd a bennir yn hysbysiad Gweinidogion Cymru.

Adran 25 – Adolygu ffiniau cymuned gan brif gyngor

Mae adran 25 yn darparu y caiff prif gyngor benderfynu cynnal adolygiad o gymuned o'i wirfodd neu ar gais cyngor cymuned neu gyfarfod cymunedol. Fodd bynnag, rhaid i'r prif gyngor beidio â chynnal adolygiad ar gais cyngor cymuned neu gyfarfod cymunedol os yw'r prif gyngor o'r farn y byddai cynnal yr adolygiad hwnnw yn ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.

Yn dilyn adolygiad o'r fath, dylai'r prif gyngor anfon adroddiad i'r Comisiwn gydag argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned ac unrhyw effaith o ganlyniad i hynny ar unrhyw gynghorau cymuned. Yn unol â'r ddyletswydd a osodir gan adran 22, rhaid i unrhyw argymhellion a wneir gan y Cyngor sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Caiff prif gyngor a'r Comisiwn gytuno i'r cyngor ddirprwyo ei swyddogaethau o gynnal adolygiadau o gymunedau i'r Comisiwn. Mae unrhyw drefniant o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y cytunir arnynt rhwng y ddau barti.

Adran 26 – Adolygu ffiniau cymuned gan y Comisiwn

Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i gynnal adolygiad o gymuned o dan amgylchiadau penodol, sef: os bydd prif gyngor yn gofyn iddo ei gynnal ar ei ran; os nad yw'n fodlon ar yr adroddiad a roddwyd iddo gan brif gyngor am resymau y manylir arnynt yn adran 26(2), neu os bydd prif gyngor wedi methu â chynnal adolygiad o'r fath yn unol â chyfarwyddyd a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru.

Rhaid i'r Comisiwn anfon at Weinidogion Cymru unrhyw argymhellion y mae'n eu gwneud mewn perthynas ag adolygiad o'r fath, a all gynnwys newidiadau i ffiniau cymuned a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned. Mae'r adran hefyd yn disgrifio'r amgylchiadau pan all y Comisiwn adennill costau oddi wrth y prif gyngor.

Adran 27 – Adolygu siroedd wedi eu cadw

Mae'r adran hon yn darparu y caiff y Comisiwn gynnal adolygiad o sir wedi ei chadw neu siroedd wedi eu cadw. Wrth wneud hynny, caiff y Comisiwn argymhell newidiadau i ardal y sir wedi ei chadw y mae o'r farn eu bod yn briodol. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn, wrth ystyried a all newidiadau i ardal y sir wedi ei chadw fod yn briodol, roi sylw i'r dibenion dros gadw'r siroedd sydd wedi eu cadw.

Nid yw siroedd wedi eu cadw yn awdurdodau lleol ond yn ardaloedd, yn seiliedig i raddau helaeth ar ardaloedd awdurdodau sirol Cymru cyn 1996, a ddefnyddir at ddibenion gweinyddol penodol e.e. yr Arglwydd Raglawiaid.

Adran 28 – Adolygu ffiniau tua'r môr

Mae adran 28 yn galluogi'r Comisiwn i adolygu ffin llywodraeth leol sy'n gorwedd o dan y môr ac nad yw'n cydffinio â ffin llywodraeth leol arall, a chyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru os yw'n teimlo y dylai'r ffin gael ei newid.

Adran 29 – Adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal

Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gynnal adolygiad etholiadol o bob prif ardal o leiaf bob deng mlynedd, er y gallai benderfynu, ar gais cyngor neu o'i wirfodd, gynnal un unrhyw bryd.

Fodd bynnag, ni ddylai unrhyw adolygiad gael ei gynnal ac ni ddylai unrhyw adroddiad gael ei gyhoeddi o fewn 9 mis i etholiad cyngor arferol. Yn dilyn adolygiad, rhaid i'r Comisiwn anfon adroddiad at Weinidogion Cymru.

Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn anfon ei amserlen arfaethedig ar gyfer cynnal yr adolygiadau etholiadol at Weinidogion Cymru.

Adran 30 – Ystyriaethau ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal

Rhaid i'r Comisiwn, wrth iddo ystyried a fydd yn gwneud argymhellion ynghylch newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal, wneud ymdrech i sicrhau bod nifer yr etholwyr a gynrychiolir gan bob cynghorydd mewn prif gyngor mor agos â phosibl at fod yr un nifer. Dylid cydnabod hefyd yr angen i wneud cynigion sy'n gyson â'r angen i sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, bod gan adrannau etholiadol ffiniau cydnabyddedig a bod y cwlwm cymunedol yn cael ei barchu.

Adrannau 31 a 32 – Adolygu trefniadau etholiadol i gymunedau gan brif gyngor; Adolygu trefniadau etholiadol i gymunedau gan y Comisiwn

Mae'r adrannau hyn yn darparu y caiff prif gyngor gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol cymunedau o'i wirfodd neu ar gais cyngor cymuned neu o leiaf 30 o etholwyr mewn cymuned. Dylid darllen hyn ar y cyd â'r ddyletswydd yn adran 22 sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor adolygu ei ardal.

Caiff y Comisiwn (yn hytrach na'r prif gyngor) gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned o dan amgylchiadau penodol, sef: os gofynnir iddo gynnal adolygiad gan y prif gyngor, cyngor cymuned neu 30 o etholwyr mewn cymuned; os bydd prif gyngor wedi methu â chyflawni cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r fath. Pan fo'r Comisiwn wedi cynnal adolygiad am fod prif gyngor wedi methu â gwneud hynny, caiff adennill y gost oddi wrth y prif gyngor.

Adran 33 – Ystyriaethau ar gyfer adolygu trefniadau etholiadol cymuned

Mae'r adran hon yn darparu, pan fo prif gyngor neu'r Comisiwn yn ystyried gwneud newidiadau i drefniadau etholiadol cymuned, y dylid ystyried a ddylid rhannu cymuned yn wardiau cymuned a hefyd ddisbarthiad priodol etholwyr yn y wardiau hynny.

Mae **Pennod 4** yn manylu ar y weithdrefn o ran ymgynghori a chyhoeddi adroddiadau i'w mabwysiadu ar gyfer adolygiadau.

Adran 34 – Y weithdrefn ragadolygu

Cyn dechrau adolygiad, rhaid i'r Comisiwn neu'r prif gyngor sy'n cynnal yr adolygiad hysbysu'r ymgynghoreion statudol (a restrir yn yr adran) bod adolygiad ar fin digwydd.

Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu'r ymgynghoreion gorfodol am y weithdrefn a'r fethodoleg y mae'n mynd i'w dilyn wrth gynnal adolygiad etholiadol o brif ardal. Yn benodol, bydd hyn yn ymdrin â'i ddull o benderfynu ar nifer priodol yr aelodau ar gyfer cyngor yr ardal honno.

Adran 35 – Ymgynghori ac ymchwilio

Mae adran 35 yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn neu'r prif gyngor sy'n cynnal yr adolygiad (y cyfeirir ato yn y Bil fel "y corff adolygu") ymgynghori â'r ymgynghoreion gorfodol a chynnal yr ymchwiliadau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol.

Yn dilyn y broses ymgynghori, rhaid i'r corff adolygu lunio adroddiad drafft ac ymgynghori arno am rhwng chwech a deuddeg wythnos a rhaid i gopi fod ar gael i edrych arno yn swyddfeydd unrhyw brif gyngor ar gyfer yr ardal a adolygir.

Adran 36 – Adrodd ar yr adolygiad

Mae adran 36 yn darparu'r weithdrefn ar gyfer adrodd ar adolygiad gan gorff adolygu yn dilyn y cyfnod ymgynghori o dan adran 35. Unwaith y bydd y corff adolygu wedi ystyried y sylwadau sy'n dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, yna rhaid iddo lunio adroddiad pellach. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch yr hyn y dylai'r adroddiad pellach ei gynnwys, gan ddibynnu ar y math o adolygiad a gynhelir.

Yna rhaid i'r corff adolygu gyflwyno'r adroddiad a'i argymhelliad i'r person neu'r corff sydd â'r pŵer i weithredu'r argymhellion (ac eithrio pan y corff adolygu ei hun yw'r awdurdod gweithredu). Rhaid iddo hefyd sicrhau y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi'n electronig a'i fod ar gael i'r cyhoedd edrych arno am gyfnod o chwe wythnos o leiaf gan ddechrau ar y dyddiad cyhoeddi.

Rhaid i'r corff adolygu sicrhau hefyd y caiff copi o'r adroddiad pellach ei anfon at yr ymgynghoreion gorfodol, yr Arolwg Ordians a Gweinidogion Cymru. Rhaid hysbysu unrhyw berson arall sydd wedi cyflwyno tystiolaeth neu wneud sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad o dan adran 35 o'r Bil sut i gael gafael ar gopi.

Adran 37 – Gweithredu gan Weinidogion Cymru

Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl iddynt gael adroddiad ar newidiadau i ffiniau oddi wrth y corff adolygu, wneud gorchymyn sy'n unol â'r argymhellion neu sy'n eu haddasu. Fel arall, gallai Gweinidogion Cymru benderfynu peidio â gweithredu yng ngoleuni'r adroddiad.

Rhaid bod o leiaf 6 wythnos rhwng y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn cael adroddiad a'r dyddiad y gwneir unrhyw orchymyn.

Adran 38 – Gweithredu newid i ffin cymuned

Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn, pan fydd yn cael adroddiad ar adolygiad o ffin cymuned oddi wrth brif gyngor, wneud gorchymyn sy'n gweithredu'r argymhellion fel y maent neu gydag addasiadau y cytunir arnynt â'r prif gyngor. Fodd bynnag, os na all y Comisiwn a'r prif gyngor gytuno ar unrhyw

addasiadau arfaethedig, neu os yw'r Comisiwn o'r farn na ddylai weithredu unrhyw un neu ragor o argymhellion y cyngor, caiff gynnal ei adolygiad ei hun.

Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ei argymhellion a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Adran 39 – Gweithredu newid i drefniadau etholiadol cymuned

Mae'r adran hon yn darparu y caiff prif gyngor wneud gorchymyn sy'n gweithredu newidiadau i drefniadau etholiadol cymuned. Caiff y newidiadau fod yn rhai yr oedd y prif gyngor wedi cyflwyno adroddiad arnynt o dan adran 26 neu'r rhai a argymhellwyd gan y Comisiwn o dan adran 32. O dan amgylchiadau penodol, caiff y Comisiwn ofyn i Weinidogion Cymru weithredu ei argymhellion.

Adran 40 – Gorchmynion gweithredu: darpariaeth ganlyniadol

Mae adran 40 yn darparu y caniateir i orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu brif gyngor, yn dilyn adolygiad, wneud unrhyw ddarpariaethau canlyniadol eraill ar y newidiadau a gyflwynir sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy neu ei farn ef. Gallai hyn gynnwys newid enw ardal, neilltuo cynghorwyr presennol i ardaloedd newydd neu ardaloedd sydd wedi eu newid a nifer a dosbarthiad y cynghorwyr mewn ardal newydd neu ardal sydd wedi ei newid.

Adran 41 – Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol gyffredinol

Caiff Gweinidogion Cymru, o dan adran 41, wneud rheoliadau (o gymhwysiad cyffredinol) sy'n darparu ar gyfer materion cysylltiedig, canlyniadol etc er mwyn rhoi effaith lawn i orchmynion adolygu: er enghraifft, trosglwyddo staff, eiddo a rhwymedigaethau.

Adran 42 – Trosglwyddo staff

Mae adran 42 yn darparu bod rhaid i unrhyw achosion o drosglwyddo staff beidio ag arwain at ddirywiad yn eu telerau ac amodau gwaith.

Adran 43 – Amrywio a dirymu gorchmynion

Mae adran 43 yn darparu gweithdrefn i Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu brif gyngor amrywio neu ddirymu gorchymyn adolygu a chywiro camgymeriadau.

Adran 44 – Cytundebau trosiannol o ran eiddo a chyllid

Mae adran 44 yn galluogi cyrff cyhoeddus y mae adolygiad yn effeithio arnynt i ymrwymo mewn cytundeb â chyrff cyhoeddus eraill ynghylch unrhyw achos o drosglwyddo eiddo ac unrhyw drefniadau ariannol sy'n codi o ganlyniad i newid yr ardal. Mae'n ofynnol i'r partïon i gytundeb o'r fath ymdrin ag unrhyw fethiant i gytuno drwy gymrodeddu.

Adran 45 – Newid ardal heddlu

Os ymddengys bod newid i ffiniau ardal heddlu yn ddymunol, fel rhan o adolygiad o ffiniau yn unol ag adran 23 o'r Bil, caiff y Comisiwn argymhell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y newid hwnnw drwy orchymyn. Byddai'r amgylchiad hwn yn codi pe bai newid i ffin sir yn golygu bod rhan o sir yn rhannol y tu mewn neu'r tu allan i ardal heddlu.

Gall gorchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol newid yr ardal heddlu fel bod ardal newydd o fewn ardal Comisiynydd Heddlu a Throsedd penodol. Byddai hefyd yn golygu bod modd cynnal etholiad newydd am Gomisiynydd pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu felly.

Adran 46 – Rhychwant ffiniau tua'r môr

Mae'r adran hon yn darparu bod cymunedau sy'n ffinio â'r môr yn ymestyn i farc distyll glannau'r môr a bod unrhyw groniant o'r môr yn ffurfio rhan o'r gymuned a'r sir sy'n ffinio â glannau'r môr.

Adran 47 – Newid ffin yn dilyn newid cwrs dŵr

Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn hefyd i newid ffin o ganlyniad i newid cwrs dŵr, ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn.

Adran 48 – Cyfarwyddiadau a chanllawiau ynghylch Rhan 3

Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn a phrif gynghorau mewn perthynas ag adolygiadau o ardal llywodraeth leol a threfniadau etholiadol.

Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn a phrif gynghorau, wrth gynnal adolygiadau neu weithredu argymhellion, roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol y mae Gweinidogion Cymru wedi eu dyroddi.

Adran 49 – Ymchwiliadau lleol

Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn neu brif gyngor i drefnu ymchwiliad lleol yn gysylltiedig ag unrhyw adolygiad a gynhelir ganddo. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru neu brif gyngor i drefnu i ymchwiliad lleol gael ei gynnal pan ystyrir gwneud gorchymyn sy'n dirymu gorchymyn blaenorol. Caiff y person a benodir i gynnal yr ymchwiliad ei gwneud yn ofynnol i bersonau fod yn bresennol neu roi tystiolaeth ar lw.

Mae **Rhan 4** yn ymdrin ag Adolygiadau o aelodaeth cyrff cyhoeddus gan y Comisiwn.

Adran 50 – Adolygiadau o gyrff cyhoeddus cymwys

Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori, gyfarwyddo'r Comisiwn i adolygu aelodaeth cyrff cyhoeddus penodol. Gallai hyn gwmpasu nifer aelodau'r corff a'r

priodoleddau a'r cymwysterau y dylent feddu arnynt. Ni fyddai'r pŵer yn cwmpasu awdurdodau lleol ac mae wedi ei gyfyngu fel arall i gyrff (a) y mae rhaid i'w haelodaeth gynnwys aelod neu benodai awdurdod lleol a (b) sy'n arfer swyddogaethau a roddwyd gan Ddeddf Cynulliad.

Yn dilyn adolygiad, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru gan nodi unrhyw gynigion ar gyfer newid.

Mae **Rhan 5** yn ymdrin â newidiadau eraill i lywodraeth leol.

Adran 51 – Aelod llywyddol prif gyngor

Mae'r adran hon yn diwygio *Deddf Llywodraeth Leol 1972* er mwyn caniatáu i brif gynghorau benodi "aelod llywyddol". Byddai "aelod llywyddol" yn gallu cyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau cadeirydd cyngor a benderfynir gan y cyngor. Yn benodol, bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi cynghorau sy'n dymuno gwahanu'r swyddogaethau defodol a dinesig sy'n gysylltiedig â chadeirydd neu faer y cyngor oddi wrth y rhai sy'n llywyddu cyfarfodydd y cyngor.

Ni chaiff aelod o weithrediaeth y cyngor fod yr aelod llywyddol. Mater i'r prif gyngor ei benderfynu yw tymor y penodiad, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad na all ymestyn ar ôl etholiad nesaf y cyngor.

Caiff cyngor hefyd benodi dirprwy aelod llywyddol na chaniateir iddo fod yn aelod o'r weithrediaeth ychwaith.

Adran 52 – Cyfyngu ar hyrwyddo Biliau

Mae'r adran hon yn atal awdurdod lleol rhag hyrwyddo Bil lleol sy'n ymwneud ag ardal llywodraeth leol neu strwythur gwleidyddol awdurdod lleol.

Adrannau 53 i 55 – Gwefannau cynghorau cymuned; Gofyniad i roi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig; Cyfarfodydd a thrafodion cymunedau.

Mae **adran 53** yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth benodol yn electronig gan gynnwys manylion aelodaeth a busnes y cyngor a gwneud darpariaeth i aelodau'r cyhoedd gysylltu â'r cyngor neu ei glerc yn electronig. Mae'r gofyniad i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn ddarostyngedig i reolau cyfrinachedd arferol.

Rhaid i gyngor cymuned roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r mater hwn.

Mae **adran 54** yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig hefyd.

Mae **adran 55** yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned gyhoeddi agendâu ac adroddiadau cyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd sydd i ddod yn electronig.

Adran 56 – Pwyllgorau gwasanaethau democrataidd

Mae'r adran hon yn diwygio *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* er mwyn ehangu cwmpas pwyllgor gwasanaethau democrataidd fel y gall, ar gais yr awdurdod, adolygu unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael i'r aelodau etholedig a'u telerau ac amodau.

Adran 57 – Pwyllgorau archwilio

Mae adran 57 yn diwygio *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* er mwyn darparu bod pwyllgor archwilio awdurdod lleol yn un y mae rheolau cydbwysedd gwleidyddol (a nodir yn adran 15 o *Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989*) yn gymwys iddo.

Adran 58 – Swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau

Mae adran 58 yn galluogi'r Panel, wrth iddo ystyried hawlogaeth i gael taliad penodol, i osod terfyn ar nifer y cynghorwyr y caniateir iddynt ei gael. Mae hyn yn cynyddu pŵer presennol y Panel i bennu terfyn ar gyfran y cynghorwyr y caniateir iddynt gael taliad penodol.

Adran 59 – Awdurdodau perthnasol

Mae adran 59 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu at y cyrff cyhoeddus y dylai'r Panel ystyried eu tâl. Rhaid i unrhyw gorff ychwanegol o'r fath fod yn un y mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb drosto ac sy'n cynnwys aelodau awdurdodau lleol yn ei aelodaeth. Mae'r pŵer hwn i'w gyflawni drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

Adran 60 – Adroddiadau blynyddol dilynol

Mae adran 60 yn newid y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r Panel lunio ei adroddiad blynyddol o 31 Rhagfyr i 28 Chwefror. Mae hyn yn cael effaith o leihau'r amser rhwng cyhoeddi adroddiad a'i weithredu y mis Ebrill canlynol. Bydd y darpariaethau hefyd yn galluogi'r Panel i benderfynu pryd y bydd ei adroddiadau yn dod i rym ac i ôl-ddyddio ei benderfyniadau hyd at dri mis.

Adran 61 – Ymgynghori ar adroddiadau drafft

Mae adran 61 yn darparu y byddai cyfnodau ymgynghori ar adroddiadau atodol drafft, sy'n 8 wythnos ar hyn o bryd, yn cael eu hamrywio i fod rhwng pedair ac wyth wythnos.

Adran 62 – Gofynion cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau

Mae adran 62 yn darparu y caiff y Panel ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion am unrhyw incwm y mae eu haelodau yn ei gael oddi wrth gyrrff cyhoeddus penodedig.

Adran 63 – Cyd-bwyllgorau safonau

Mae adran 63 yn diwygio adran 53 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 2000* (“Deddf 2000”) fel y caiff un neu ragor o awdurdodau perthnasol (h.y. sir neu gyngor bwrdeistref sirol, awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub yng Nghymru) sefydlu cyd-bwyllgor safonau. Rhaid i awdurdod sy’n ystyried sefydlu cyd-bwyllgor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 63 hefyd yn diwygio adran 54 o Ddeddf 2000 i ddarparu bod rhaid i bwyllgor safonau, wrth arfer unrhyw un o’i swyddogaethau, roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

Mae Rhan 6 yn ymdrin â’r ddarpariaeth gyffredinol am y Bil.. Yn benodol mae’n:

- Galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall os oes angen i roi effaith i ddarpariaethau’r Bil hwn;
- Esbonio’r weithdrefn ar gyfer gwneud darnau o is-ddeddfwriaeth o dan y Bil hwn;
- Darparu ar gyfer y diffiniad o derminoleg a ddefnyddir yn y Bil cyfan a chyflwyno’r mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio yn Atodlen 3;
- Cyflwyno Atodlenni 1 a 2 sy’n cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall a diddymiaid deddfwriaeth arall sy’n ofynnol i wneud i ddarpariaethau penodol gael effaith;
- Ymdrin ag unrhyw adolygiad gan y Comisiwn neu brif gyngor sy’n mynd rhagddo ar yr adeg pryd y daw’r Bil i rym sydd i’w gwblhau o dan y ddeddfwriaeth flaenorol ac yn darparu arbediad i’r rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas ag adolygiadau barhau mewn grym hyd nes y gwneir rheoliadau newydd o dan y Bil;
- Cynnwys darpariaeth ynghylch cychwyn adrannau o’r Bil.
- Darparu teitl byr y Bil at ddibenion enwi.

Mae **Atodlen 1** yn cynnwys diwygiadau canlyniadol sy’n deillio o brif ddarpariaethau’r Bil a mân ddiwygiadau perthnasol eraill. Yn benodol, mae Atodlen 1 yn cynnwys diwygiad i *Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005* sy’n ychwanegu’r Comisiwn at yr awdurdodau rhestredig y mae gan yr ombwdsmon y cyfrifoldeb i ymchwilio i gwynion amdanynt.

4. Costau

Yn ei bapur i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y gyllideb ddrafft eleni, dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wrth Aelodau y bydd y **costau a amcangyfrifir** yn y Bil yn isel a darperir ar eu cyfer drwy gyllidebau presennol.⁷

O ran newidiadau i'r **Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol**, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi 'nid oes unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau yn gysylltiedig â darpariaethau'r Bil' ac y disgwylir i'r Comisiwn 'ymdopi â hyn gan ddefnyddio'i gyllideb bresennol'(£540,000 yn 2012-13, £520,000 yn 2013-14 a 2014-15). Bydd **costau unwaith o £5,000** yn dod yn rhan o'r 'trafodaethau blynyddol ynglŷn â'r gyllideb' rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn.

Mae rhai **costau posibl**: byddai unrhyw ddefnydd o bwerau'r Comisiwn i wneud gorchmynion yn costio tua £2,000 fesul gorchmyn; pe byddai'r Comisiwn yn codi tâl ar awdurdod lleol am gynnal adolygiad o ardal gymunedol byddai'r gost rhwng £8,000 a £15,000; ac mae darpariaeth i ddsbarthu adroddiadau drafft, ond gan fod modd gwneud hyn yn electronig ni ddylai hyn olygu unrhyw oblygiadau ariannol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn i fonitro'r gwaith o weithredu diwygiadau, ond nid yw'n nodi a fydd y gwaith monitro hwn yn arwain at gostau ychwanegol.

O ran y **Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol**, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi '**nid oes unrhyw gostau ychwanegol**' yn gysylltiedig â darpariaethau'r Bil (cyllideb flynyddol bresennol y Panel yw £50,000).

O ran y gofynion newydd ar gyfer **cyngorau cymuned a thref**, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod y gellid dadlau bod '**costau sylweddol yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon ... ond nid yw hyn yn wir, o angenrheidrwydd**'. Mae'n dweud bod gan nifer o gynghorau o'r fath eisoes ffyrdd o gysylltu â hwy'n electronig. O'r 736 o gynghorau, mae arolwg diweddar yn awgrymu nad oedd tua hanner ohonynt 'ar y we'. Mae'n nodi bod opsiynau eraill ar gael i gynghorau, fel cydweithredu, defnyddio gwefannau prif gynghorau neu weithio gyda sefydliadau fel Un Llais Cymru. **Byddai costau cychwynnol oddeutu £700,000** pe byddai'r 350 cyngor nad oes ganddynt wefan yn sefydlu un eu hunain, gyda **chostau cynnal a chadw blynyddol parhaus posibl o hyd at £350,000 yn ychwanegol**. Er y tybir y bydd cydweithio yn lleihau'r ffigur hwn yn sylweddol, **ni wnaed unrhyw amcangyfrif o gostau cyffredinol y gofynion hyn**.

⁷ Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Papur i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14, 10 Hydref 2012 [fel ar 4 Ionawr 2013]

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai bwriad Llywodraeth Cymru yw gweithio gyda chynghorau cymuned a'u sefydliadau, a pharatoi canllawiau er mwyn nodi dulliau cost-ffeithiol o weithredu ac i weld sut y gellir cydweithredu ar y polisi hwn yn y modd mwyaf effeithiol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai adolygiadau o'r gwaith o weithredu'r darpariaethau hyn, gyda chymorth chwiliadau o'r rhyngwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru. **Fodd bynnag, nid oes amcangyfrif o'r gost i Lywodraeth Cymru o ran darparu'r canllawiau hyn, y cymorth a'r gwaith monitro.**

O ran sefydlu **cyd-bwyllgorau safonau**, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi 'ni ragwelir bod unrhyw gostau ychwanegol' yn gysylltiedig â'r pwerau ac y gallent alluogi awdurdodau i wneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau. O ganlyniad i'r angen am lai o aelodau ar gyfer y pwyllgorau safonau ar y cyfan, byddai tua £1,000 y flwyddyn i bob person yn cael ei arbed drwy ostyngiad mewn niferoedd, wedi'i wrthbwyso gan gostau teithio a chynhaliaeth uwch. **Nid oes amcangyfrif ar gyfer yr arbedion neu'r costau net cyffredinol.**

O ran ehangu rôl y **pwyllgorau gwasanaethau democrataidd** a newidiadau i ofynion aelodaeth **pwyllgorau archwilio**, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi na fydd unrhyw oblygiadau ariannol ac y bydd y newidiadau ond yn adlewyrchu profiad llywodraeth leol o weithredu Mesur 2011.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'n debyg na ragwelir costau yn gysylltiedig â'r pwerau sy'n ymwneud â **Chadeiryddion a Meiri** ac **Aelodau Llywyddu**, gan mai Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol fydd yn penderfynu ar y cyflogau ac y cânt eu rheoli wedyn o gyllideb y cyngor perthnasol.

5. Ymateb i'r Bil

Cyflwynodd y Gweinidog y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Tachwedd 2012.

Dywedodd:

I raddau helaeth, mae'r Bil yn datblygu argymhellion a wnaed gan adroddiad Mathias y llynedd, a oedd yn ymchwilio i'r rhaglen adolygu etholiadol yn cael ei chynnal gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Yn ogystal â datgelu nifer o wendidau sefydliadol a strategol yng ngwaith y comisiwn, roedd Mathias hefyd yn nodi meysydd lle'r oedd y fframwaith deddfwriaethol sylfaenol sy'n rheoli dulliau gwaith y comisiwn, sydd wedi'i ymgorffori yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhy gyfyngol ac o leiaf yn rhannol ar fai am y problemau sydd ynghlwm wrth yr adolygiadau hyn.

Bydd y Bil yn rhoi dechreuad newydd i'r comisiwn, gan gynnwys newid ei enw i gomisiwn ffiniau a democratiaeth leol Cymru. Bydd hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod ei waith yn ymwneud â llawer mwy na ffiniau a'i fod yn rhan annatod o'r broses o sicrhau sylfaen gynrychiadol a democrataidd i lywodraeth leol yng Nghymru.⁸

Gan siarad ar ran grŵp y Ceidwadwyr, dywedodd Janet Finch-Saunders AC:

Mae llawer iawn i'w groesawu yng nghynigion y Gweinidog. Mae'r pwyntiau cadarnhaol yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r comisiwn ffiniau. Bydd y diwygiadau i gyfansoddiad a threfniadaeth y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, gobeithiwn, yn sicrhau y bydd penderfyniadau'r comisiwn yn fwy democrataidd, a thrwy hynny ei wneud yn fwy dilys. Caiff darpariaethau'n ymwneud â chynghorau tref a chymuned eu croesawu. Yn benodol, dylid croesawu'r ffaith y rhoddid hwb i allu unigolion a chymunedau i gael gafael ar wybodaeth.⁹

Dywedodd Lindsay Whittle fod Plaid Cymru yn gefnogol o nodau'r Bil ond mynegodd siom "nad yw'n ofyniad cyfreithiol y dylai cadeiryddion pwyllgorau craffu fod yn wleidyddol gytbwys".¹⁰

Ymatebodd y Gweinidog:

Mae'r Aelod yn codi mater pwysig iawn ynghylch cydbwysedd gwleidyddol mewn pwyllgorau. Yn sicr, byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed mwy gan ei blaid ynglŷn â'r broses pan fydd y Bil hwn yn mynd drwy'r camau pwyllgor.¹¹

Dywedodd Peter Black fod grŵp y Democrataid Rhyddfrydol yn croesawu'r Bil ar y cyfan ond gofynnodd:

A wnaiff y Gweinidog hefyd edrych ar y ffaith nad yw'r Bil yn cynnwys dim gofyniad i gynghorau tref a chymuned hyrwyddo etholiadau na chyhoeddi gwybodaeth am ganlyniadau etholiadau? Yn benodol, er bod rhestr hir o faterion y mae'n rhaid i gyngor tref a chymuned eu cyhoeddi'n electronig, ni chyfeirir at ddatganiadau buddiannau ei aelodau ei hun. A wnaiff y Gweinidog ystyried cynnwys hynny yn y Bil ac efallai ei wneud yn ddarpariaeth ar gyfer prif gynghorau hefyd? Mae rhai cynghorau yn rhoi'r wybodaeth ar y we, ond, gydag eraill, rhaid i

⁸ [Cofnod, 27 Tachwedd 2012 \[fel ar 17 Rhagfyr 2012\]](#)

⁹ [Cofnod, 27 Tachwedd 2012 \[fel ar 17 Rhagfyr 2012\]](#)

¹⁰ [Cofnod, 27 Tachwedd 2012 \[fel ar 17 Rhagfyr 2012\]](#)

¹¹ [Cofnod, 27 Tachwedd 2012 \[fel ar 17 Rhagfyr 2012\]](#)

chi ymlwybro i ryw gornel dywyll o neuadd y dref, filltiroedd o'r man lle'r ydych yn byw, i gael gwybod beth yw buddiannau eich cynghorydd lleol, er mwyn ei ddal i gyfrif.¹²

Ymatebodd y Gweinidog:

Rwyf yn rhannu pryder yr Aelod ynglŷn â datganiadau buddiannau. Mae'n eithriadol o bwysig bod aelodau'r cyhoedd yn deall yn llawn yr hyn y mae eu haelodau etholedig yn ei gefnogi a'r hyn y maent yn cymryd rhan ynddo, drwy gyfrwng datganiad. Wrth gwrs, pan fydd ymgeisydd yn sefyll ac yn gwasanaethu fel aelod annibynnol, byddai'n llawer gwell pe byddai'n darparu manylion llawn ei ymlyniad gwleidyddol drwy ddatganiad buddiannau, fel y bo'n briodol.¹³

¹² [Cofnod, 27 Tachwedd 2012 \[fel ar 17 Rhagfyr 2012\]](#)

¹³ [Cofnod, 27 Tachwedd 2012 \[fel ar 17 Rhagfyr 2012\]](#)